**Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol**

**Hydref 1af 2013**

**Agenda**

1. Cyflwyniad gan y Cadeirydd
2. Ymddiheuriadau
3. Trafod rheolau newydd Grwpiau Trawsbleidiol yn y Cynulliad
4. Trafod cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol a syniadau ar gyfer pynciau trafod y dyfodol
5. Cyflwyniad gan Ian Jones, Prif Weithredwr S4C
6. Cyflwyniad gan Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru
7. Cwestiynnau o'r llawr
8. Unrhyw fusnes arall

**Ymddiheuriadau:** Dr Huw Thomas, Gill Griffiths, Leighton Andrews AC, Bethan Jenkins AC, Angela Burns AC, Rhodri Glyn Thomas AC, Emily Cole, Hywel Jones, Janet Finch-Saunders AC, Dafydd Idris Edwards

**Presennol:** Keith Davies AC, Penri Williams (Mudiadau Dathlu'r Gymraeg), Alun Ffred Jones AC, Simon Thomas AC, Rhun ap Iorwerth AC, Suzy Davies AC, Rhodri Talfan Davies, Delyth Issac, Ian Jones, Catrin Hughes Roberts, Colin Nosworthy, Ceri Owen, Lowri Hughes, Calum Higgins, Catrin Dafydd, David Wyn Williams (Cymdeithas), Elin Maher (RhAG), Catrin Davies (Swyddog Cymorth Plaid Cymru), Meinir Jones (Comisiynydd y Gymraeg), Gwyn Williams (Comisiynydd y Gymraeg), Hywel Glyn Lewis (Prifysgol y Drindod Dewi Sant), Elin Wyn, Osian Rhys, Rhodri Talfan Davies, Ian Jones

**1. Blaenoriaethau'r Grŵp**

Trafodwyd pynciau trafod y grŵp yn y dyfodol. Awgrymwyd y pynciau canlynol: Addysg Ail Iaith, y Bil Cynllunio, Dechrau'n Deg trwy'r Gymraeg, Cymraeg i Oedolion, Lleiafrifoedd Ethnig a'r iaith.

Yn ogystal ag ail-drafod ambell rhai o'r 5 pwnc diwethaf a benderfynwyd pan ddaeth y grwp i fodolaeth, lle y ceir datblygiadau yn y meusydd. Y 5 pwnc gwreiddiol oedd:. Comisiynydd y Gymraeg

& Mesur Iaith, Dyfodol Cymunedau Cymraeg, Addysg, Y Cyfryngau, a Strategaeth Iaith y Llywodraeth (cyfarfod nesaf)

Penderfynwyd y bydd y Cadeirydd yn ystyried a dod i benderfyniad wedi'r cyfarfod, a bydd yn grwp yn penderfynnu ar restr newydd yn ystod y cyfarfod nesaf.

Cafwyd adroddiad am y rheolau newydd ynghylch grwpiau trawsbleidiol.

**2. Darlledu**

**Ian Jones, Prif Weithredwr S4C**

Cafwyd cyflwyniad gan Ian Jones, Prif Weithredwr S4C.

Amlinellodd nifer o ddatblygiadau diweddar i'r Sianel gan gynnwys ystyried adleoli tu allan i Gaerdydd a'r elfen ddigidol. Dywedodd fod symudiad sylweddol at ddefnydd ar-lein o Glic yn lle teledu traddodiadol. Dywedodd fod cytundeb pellach gyda'r BBC yn golygu y bydd allbwn S4C ar gael ar 650 o wahanol blatfformau ar draws gwledydd Prydain a thu hwnt drwy'r iPlayer. Cyfeiriodd at ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd rhwng BBC Cymru a S4C i ddefnydd pobl o'r Gymraeg.

Soniodd bod cyfnod siarter y BBC yn sicr tan 2017 sy'n golygu fod 90% o arian S4C yn wybyddus tan hynny, a'u bod wedi derbyn un flwyddyn arall o'r gyllideb gan Lywodraeth Prydain ond nad oes arian o'r ffynhonell honno wedi ei chadarnhau 2016-17. Pwysleisiodd bwysigrwydd partneriaethau gyda sefydliadau eraill yng Nghymru megis gyda'r Urdd. Mae rhaglen "Y Gwyll" yn enghraifft o'r bartneriaeth a'r berthynas 'dda' gyda'r BBC sydd yn golygu annibyniaeth 'weithredol'. Dywedodd fod angen gofyn y cwestiwn sut mae S4C yn cael ei ariannu wedi 2017, a holi a fyddai modd sicrhau gwarant ariannol o fewn siarter y BBC.

Dywedodd fod ymchwil yn dangos bod S4C werth £2.2 biliwn i economi Cymru a bod budd o £2 am bob punt sy'n cael ei wario gan y sianel. Dywedodd fod nifer o'r cyrff sydd yn hysbysebu ar y sianel wedi cynyddu yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Soniodd am yr ymchwil a wnaed am symud y pencadlys er mwyn sicrhau bod buddiannau'r sianel yn lledaenu ledled y wlad a'r posibiliad o gyd-leoli gyda'r BBC yng Nghaerdydd. Cyfeiriodd at bwysigrwydd cynnwys digidol a llwyddiant nifer o 'apps' diweddar.

Holwyd pam bod S4C yn gwneud defnydd mor uchel o'r Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol. Dywedwyd fod yr ymchwil yn dangos diffyg hyder ymysg siaradwyr Cymraeg a bod e'n bwysig felly ffeindio ffordd yn y canol er mwyn hwyluso a denu'r gynulleidfa.

**Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, BBC Cymru**

Cafwyd cyflwyniad gan Rhodri Talfan Davies (RhTD). Cydnabu fod y sefyllfa ariannol yn un anodd ac yn codi cwestiynau ynghylch cynnal ansawdd. Dywedodd fod y sefyllfa ieithyddol yn heriol yn ogystal. Soniodd hefyd am gydweithio gyda S4C a'u bod nhw'n edrych i fuddsoddi ar y cyd.

Wrth gyfeirio at Radio Cymru, dywedodd eu bod wedi derbyn dros 1000 o ymatebion i'r 'sgwrs genedlaethol' a bod Betsan Powys wrthi'n ystyried yr ymatebion a ffurfio ymateb gan gyfuno adborth gwrandawyr ac ymestyn croeso i gynulleidfa newydd. "O ran datblygiadau digidol, dywedodd fod ar gyfartaledd 20,000 o ddefnyddwyr yr wythnos wedi ymweld â gwefannau Cymraeg BBC Cymru y llynedd a bod hyn wedi codi i 35,000 eleni a'r bwriad yw anelu at godi hynny i 50,000 yr wythnos erbyn diwedd 2014. Dywedodd eu bod yn creu 6 swydd newydd fel rhan o'r platfform "Cymru Fyw".

Wrth ymateb i gwestiynau dywedodd RhTD na fyddai'n cefnogi'r BBC yn sefydlu ail orsaf ond bydden nhw yn ystyried cynorthwyo rhywun arall i'w sefydlu. Dywedodd fod 75% o'r gynulleidfa eisoes yn gwrando ar orsafoedd y BBC.

**Cwestiynnau**

Codwyd pryderon am argaeledd radio DAB, a sefyllfa ariannol S4C.

Dadleuodd Rhun ap Iorwerth y dylai BBC a S4C chwarae rôl lawer iawn mwy blaenllaw fel cenhadon dros yr iaith. Dywedodd Ian Jones a RhTD mai creu rhaglenni ddylai fod eu prif swyddogaeth. Dywedodd RhTD fod angen i'r newyddion fod yn ddiduedd ac nad oedd consensws ar faterion iaith. Dadleuodd Rhun ap Iorwerth fod consensws y dylai'r Gymraeg oroesi.

Holodd Suzy Davies sut oedd darlledwyr yn mynd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg tu allan i Gymru ac ymysg y di-Gymraeg. Cytunodd Ian Jones fod yn rhaid i'r sianel fod yn gynhwysfawr.